

## Rhan B – Amodau Safonol

Mae'r telerau safonol yn rhan o'r contract safonol ar gyfer gwasanaethau.

### 1 Diffiniadau

- (a) 'Contract' yw'r contract sydd wedi cael ei wneud rhyngoch chi (darparwr y gwasanaeth) a ni (Cyngor Celfyddydau Cymru) ac mae'n cynnwys rhan A a B o'r contract safonol hwn ar gyfer gwasanaethau ac unrhyw ddogfennau eraill yr ydym wedi cytuno'n glir eu bod yn rhan o'r contract.
- (b) 'Darparadwyon' yw'r darparadwyon sydd i'w darparu gennych fel y disgrifir hwy yn adran 2 o Ran A a/neu yn y fanyleb.
- (c) 'Dyddiadau' yw'r dyddiadau darparu'r darparadwyon sydd i'w darparu gennych fel y disgrifir hwy yn adran 2 o Ran A a/neu yn y fanyleb.
- (d) 'Treuliau' yw'r costau a'r treuliau a gewch godi amdanynt fel y disgrifir hwy yn adran 3 o Ran A.
- (e) 'Ffioedd' yw'r ffioedd a godwch arnom am yr amser a dreuliwch wrth ddarparu'r gwasanaethau inni fel y disgrifir hwy yn adran 3 o Ran A.
- (f) 'Gwasanaethau' yw'r gwasanaethau sydd i'w darparu gennych fel y disgrifir hwy yn adran 2 o Ran A.
- (g) 'Manyleb' yw'r fanyleb fanwl a ddisgrifir yn Rhan C.

### 2 Eich rhwymedigaethau

Bydd yn rhaid i chi wneud y canlynol:

- (a) darparu'r gwasanaethau gyda diwydrwydd, gallu, gofal a sgîl rhesymol ac yn unol ag ymarferion a safonau masnachol a gydnabyddir yn gyffredinol ar gyfer gwasanaethau tebyg ac yn unol â'r contract hwn;
- (b) cydymffurfio â'n cyfarwyddiadau rhesymol ar bob achlysur a cheisio eich gorau glas i hybu ein buddion;
- (c) peidio â gadael i unrhyw beth ddigwydd a allai ddwyn anfri ar Gyngor Celfyddydau Cymru neu'n effeithio'n wael ar ein henw da mewn unrhyw ffordd;
- (d) darparu tystiolaeth o'ch statws treth yn unol â'r contract hwn;
- (e) darparu a chynnal yr holl staff, offer a chyflenwadau angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau ac wrth wneud hyn ddefnyddio dim ond y staff sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol i berfformio'r tasgau a benodir iddynt ac mewn niferoedd digonol i sicrhau y diwellir dyletswyddau darparwr y gwasanaeth;
- (f) darperir y gwasanaethau yn unol â phob deddfwriaeth gymwys sydd o bryd i'w gilydd mewn grym a rhydd darparwr y gwasanaeth wybod i'r Cyngor cyn gynted ag y daw'r darparwr yn ymwybodol o unrhyw newidiadau yn y fath ddeddfwriaeth a chynghori'r Cyngor a fydd y fath newidiadau'n effeithio ar y

dyddiadau darparu neu ar faterion perthnasol eraill o ran perfformiad y gwasanaethau a

- (g) pheidio â derbyn gwaith o ffynonellau eraill a fydd mewn unrhyw ffordd yn niweidio neu effeithio ar eich gallu i ddarparu'r gwasanaethau a chydymffurfio â thelerau'r contract hwn.
- (h) Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn cadw'r hawl i gymeradwyo neu anghymeradwyo unrhyw waith y byddwch yn ei wneud sy'n gysylltiedig â'r contract hwn. Yn ogystal ag unrhyw ddyddiadau sy'n cael eu crybwyll yn benodol yn y contract hwn ichi gwrdd â ni, bydd yn rhaid ichi hefyd ymgynghori â ni mor aml ag yr ydym yn cytuno arni ar unrhyw adeg y mae penderfyniad o bwys yn cael ei wneud am waith dan y contract hwn. Yn sgil pob cyfarfod, byddwch yn rhoi crynodeb inni o'r cyfarfod hwnnw inni ei gymeradwyo.

### **3 Ffioedd a threuliau**

- (a) Yn gyfnewid am y gwasanaethau y byddwch yn eu darparu dan y contract hwn, byddwn yn talu ichi y ffioedd a'r treuliau mewn rhandaliadau ac mewn ffordd sy'n cael ei ddisgrifio yn adran 3 o Ran A.
- (b) Os cytunasom i dalu eich treuliau, mae'n bosibl y bydd talu'n dibynnu arnoch yn cyflwyno derbynebaw gwreiddiol. Mae gennym yr hawl i roi cyfyngiad ar swm y treuliau.
- (c) Cyn inni allu gwneud unrhyw daliad, bydd yn rhaid ichi roi anfoneb sy'n cydymffurfio â gofynion Treth Ar Werth ar gyfer pob taliad sy'n disgrifio'r gwaith a gafodd ei wneud a phryd y cafodd ei wneud. Lle mae taliad yn gysylltiedig â dyddiad darparu neu ddarparadwy penodol, rhaid ichi nodi'n glir y dyddiad a/neu'r ddarparadwy y mae'r anfoneb yn gysylltiedig â hwy.
- (d) Cyn i ni wneud unrhyw daliad, rhaid inni gymeradwyo eich anfoneb yn unol â'n gweithdrefnau mewnol ein hunain.
- (e) Cytunwch fod y ffioedd a'r treuliau yn ddigon i dalu am eich holl amser, adnoddau, costau a threth (ac eithrio TAW) wrth ddarparu'r gwasanaethau. Nid oes raid inni dalu ichi unrhyw symiau eraill ac eithrio unrhyw Dreth ar Werth sydd arnoch angen ei chodi.
- (f) Talwn ichi am eich anfonebau cymeradwy mewn 30 dydd o'u cael cyn belled â'ch bod wedi darparu'r gwasanaethau dan sylw yn yr anfoneb i'n bodlondeb ac yn unol â'r disgrifiad o'r gwasanaethau sydd yn adran 2 o Ran A a/neu yn y fanyleb.
- (g) Nid oes raid inni dalu ichi unrhyw gyflog, tâl salwch neu lwfansau gwyliau.
- (h) Oni ddarparwch inni dystiolaeth briodol o'ch statws hunangyflogaeth ac oni ddiwallwch brofion Tollau a Chyllid ei Mawrhydi o ran bod yn hunangyflogedig,

tynnwn dreth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol o'r ffioedd a dalwn ichi.

#### 4 Trethiant:

- (a) Darparwr y gwasanaeth a fydd yn gyfrifol am indemnio ac a fydd yn indemnio Cyngor Celfyddydau Cymru yn erbyn ac o ran:
- i. unrhyw dreth incwm, Yswiriant Gwladol a chyfraniadau nawdd cymdeithasol ac unrhyw rwymedigaeth, cyfraniad, asesiad neu hawliad arall sy'n deillio o berfformio'r gwasanaethau neu a wneir mewn cysylltiad â'u perfformio, lle na waherddir y fath ailennill gan y gyfraith. Darparwr y gwasanaeth a fydd hefyd yn indemnio Cyngor Celfyddydau Cymru yn erbyn yr holl gostau, treuliau ac unrhyw gosbau, dirwyon neu log a delir neu sy'n daladwy gan Gyngor Celfyddydau Cymru mewn cysylltiad ag unrhyw rwymedigaeth, didyniad, cyfraniad, asesiad neu hawliad neu o ganlyniad iddynt;
  - ii. unrhyw rwymedigaeth sy'n deillio o unrhyw hawliad cysylltiedig â chyflogaeth neu unrhyw hawliad seiliedig ar statws gweithiwr (gan gynnwys costau a threuliau rhesymol) a ddygir gan ddarparwr y gwasanaeth yn erbyn Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n deillio o ddarparu'r gwasanaethau neu sy'n gysylltiedig â'u darparu.
- (b) Gallai Cyngor Celfyddydau Cymru ddewis bodloni unrhyw indemniad (yn gyfan neu'n rhannol) drwy ddidyniad o unrhyw daliadau dyledus i ddarparwr y gwasanaeth.
- (c) Darpara darparwr y gwasanaeth cyn dechrau perfformio'r gwasanaethau i Gyngor Celfyddydau Cymru dystiolaeth ysgrifenedig foddhaol o statws ei hunangyflogaeth a chadarnhad bod y gwasanaethau a ddarpara dan y contract hwn yn bodloni profion Tollau a Chyllid ei Mawrhydi o ran bod yn hunangyflogedig.
- (d) Gallai Cyngor Celfyddydau Cymru, ar unrhyw adeg yn ystod y contract hwn, ofyn i ddarparwr y gwasanaeth ddarparu tystiolaeth sy'n profi sut y mae'n cydymffurfio â 4 (c) uchod.
- (e) Gallai Cyngor Celfyddydau Cymru derfynu'r contract hwn os na chaiff y wybodaeth y gofynnodd amdani yn 4 (c) neu 4 (d) uchod mewn cyfnod rhesymol; neu os yw'r wybodaeth a ddaw oddi wrth y darparwr yn annigonol o ran profi ei statws hunangyflogedig lle bo'n gymwys; neu os yw'n cael gwybodaeth nad yw darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio â phroffion priodol Tollau a Chyllid ei Mawrhydi.
- (f) Lle bo darparwr y gwasanaeth yn gallu cael ei drethu ym Mhrydain o ran y contract hwn, tynnwn dreth incwm ac Yswiriant Gwladol. Bydd y didyniad hwn heb ymrwymiad i'r indemniad a roesoch inni dan 4(a) a 4(b) uchod.
- (g) Gallai Cyngor Celfyddydau Cymru drosglwyddo unrhyw wybodaeth a gaiff dan gymalau 4 (c) a (d) yn gynwysedig i Gomisiynwyr Tollau a Chyllid ei Mawrhydi at ddiben casglu a rheoli'r refeniw y maent yn gyfrifol amdano.

## 5 Gwybodaeth a chyfrinacholdeb

- (a) 'Awdurdod cyhoeddus' ydym at ddibenion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gyda rhai eithriadau, mae'n ofynnol inni ddarparu gwybodaeth benodol i aelodau o'r cyhoedd ar gais. Bydd hyn yn gallu cynnwys unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch busnes a'r gwaith y byddwch yn ei wneud inni dan y contract hwn.
- (b) Rhaid ichi roi gwybod cyn gynted ag y bo modd os ystyriwch fod unrhyw wybodaeth a rowch inni yn gyfrinachol neu'n eithriad dan y Ddeddf. Mewn sawl achos ni allem gytuno i gadw gwybodaeth yn hollol gyfrinachol lle byddai hynny'n ein hatal rhag bod yn gorff cyhoeddus agored a thryloyw.
- (c) Ni fyddwn yn atebol am unrhyw golled neu niwed a gewch wrth inni ddatgelu gwybodaeth dan y Ddeddf.
- (d) Nid effeithia'r cymal hwn ar eich hawliau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/679/UE.
- (e) Os ydych yn trin neu brosesu data ar ein rhan rhaid ichi sicrhau eich bod yn gofrestredig gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os yw'n angenrheidiol dan y Ddeddf Diogelu Data. Bydd y ddau ohonom yn cadw at ein rhwymedigaethau dan y Ddeddf Diogelu Data sy'n codi o ran y Contract.
- (f) Lle y proseswch ddata personol a/neu ddata personol sensitif (fel y diffinnir hwy yn adran 1 a 2 o Ddeddf Diogelu Data) a chwithau'n brosesydd data inni yn Rheolwr Data (fel y diffinnir ef gan y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/679/UE) rhaid ichi:
  - i. sicrhau bod yr holl brosesu o ddata personol, sy'n berthnasol i'r contract hwn, o'r dechrau hyd y diwedd, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2016/679/UE.
  - ii. sicrhau na phroseswch y fath ddata personol a/neu ddata personol sensitif (fel y diffinnir hwy gan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol) heblaw yn unol â'r contract hwn, (where the contracted work involves the processing of personal data as defined by the Data Protection Act, the requirements regarding this processing are detailed in Appendix 1 – translate if appropriate for this contract), y gellid ei ddiwygio o bryd i'w gilydd, drwy gytundeb y ddau barti. Yr unig hawl a fydd gan y contractwr fydd prosesu data personol yn ystod cyfnod y contract, neu tan ei derfynu, pa un bynnag yw'r cynharaf
  - iii. sicrhau nad ydych yn cyflawni eu rhwymedigaethau hwy dan y cytundeb hwn mewn ffordd sy'n achosi i'r parti arall dorri ei rwymedigaethau dan y ddeddfwriaeth Diogelu Data

- iv. rhoi gwybod inni'n brydlon am unrhyw fethiant yn y mesurau diogelwch a nodir yn is-gymal 4(f)i uchod;
  - v. sicrhau na fyddwch yn gwneud yn fwriadol neu'n esgeulus unrhyw beth y byddai'n gallu esgor ar dorri ein rhwymedigaethau dan Ddeddf Diogelu Data 2018; a
  - vi. chydymffurfio â phob cyfarwyddyd neu gais rhesymol gennym o ran unrhyw ddata a broseswch ar ein rhan.
- (g) Awgrymwyn ichi fynd i [www.ico.gov.uk](http://www.ico.gov.uk) am wybodaeth am ryddid gwybodaeth a diogelu data.
- (h) Yn ddarostyngedig i gymalau 4(a)-4(e), ni all yr un o'r partion roi gwybodaeth gyfrinachol i unrhyw berson arall heblaw:
- i. bod rhaid ei datgelu dan y gyfraith; a/neu
  - ii. cafwyd cydsyniad y parti arall yn ysgrifenedig;
  - iii. bod y wybodaeth eisoes yn eiddo i'r cyhoedd;
  - iv. bod angen ei datgelu i sicrhau darparu'r gwasanaethau'n iawn.

## **6 Eiddo Deallusol**

- (a) Cytunwch y bydd yr holl ddata gwreiddiol, dogfennau gweithio, adroddiadau a dogfennau gwreiddiol eraill a gynhyrchir neu a ddatblygir yn benodol wrth ddarparu'r gwasanaethau ('y Deunyddiau') ar gael inni ar drwydded yn rhad ac am ddim.
- (b) Os gwnewch ymchwil ar ein rhan, ystyriwn geisiadau i ddefnyddio'r data at eich dibenion eich hun.
- (c)
- i. gadael inni wybod amcan cyffredinol eich gwaith, yr amserlen a'r dyddiad a'r lle arfaethedig ar gyfer ei gyhoeddi;
  - ii. cydnabod mewn unrhyw gyhoeddiad neu gyhoeddusrwydd sy'n cyd-fynd ag ef eich bod wedi gwneud yr ymchwil ar ein rhan ac mai ni a ariannwyd y gwaith;
  - iii. sicrhau bod pob data'n ddiennw i ddiogelu unrhyw unigolyn neu sefydliad;
  - iv. rhoi i ni gopi o'r gwaith cyn ei gyhoeddi a gwneud unrhyw newidiadau rhesymol y gallem ofyn amdanynt er sicrhau cywirdeb; a

- v. datgan mai eich barn chi a fynegir ac nid o reidrwydd barn Cyngor Celfyddydau Cymru.
- (d) Cadwn yr hawl yn ein disgrisiwn llwyr i wrthod unrhyw gais dan gymal 6(b) uchod i ddefnyddio ein data ymchwil.
  - (e) Rhaid ichi beidio â thresmasu ar unrhyw hawlfraint neu hawliau eiddo deallusol neu eu torri wrth gyflawni eich rhwymedigaethau dan y Contract hwn.
  - (f) Bydd yn rhaid ichi gael pob caniatâd angenrheidiol i sicrhau na fyddwn yn torri unrhyw hawlfraint neu hawliau eiddo deallusol eraill wrth inni ddefnyddio'r Deunyddiau.
  - (g) Cytunwch i indemnio Cyngor Celfyddydau Cymru a chadw'r indemniad hwnnw ar ei gyfer ar bob adeg yn erbyn pob ac unrhyw gostau, hawliadau, iawndal neu dreuliau a gawn neu y gallem fynd yn gyfrifol amdanynt o ran hawliad torri ar eiddo deallusol neu hawliad arall cysylltiedig â'r Deunyddiau neu'r gwasanaethau yn ystod darpariaeth y gwasanaethau. Gallai Cyngor Celfyddydau Cymru ddewis bodloni unrhyw indemniad (yn gyfan neu'n rhannol) drwy ddiodyniad o unrhyw daliadau dyledus i ddarparwr y gwasanaeth.

## **7 Hawl archwilio**

- (a) Bydd yn rhaid ichi gadw, diogelu a chynnal cofnodion llawn a chywir o'r gwasanaethau yr ydych yn eu darparu inni, gan gynnwys yr holl dreuliau yr ydym yn eu talu a'r taliadau yr ydym yn eu gwneud ichi.
- (b) Bydd yn rhaid cadw'r cofnodion hyn yn ddiogel ac wedi'u cynnal am o leiaf ddwy flynedd ar ôl y taliad olaf yr ydym yn ei wneud dan y contract hwn, neu am gyfnodau hwy os ydym yn cytuno ar hynny neu os yw'r ofynnol yn ôl y gyfraith.
- (c) Bydd yn rhaid ichi adael inni, neu'n cynrychiolwr penodedig, gael hygyrchedd i unrhyw gofnod yr ydym yn gofyn yn rhesymol amdano i wirio eich cydymffurfedd â'r contract.

## **8 Gwrthdaro buddiannau**

Rhaid ichi sicrhau na'ch rhoddir chi, unrhyw un o'ch cyflogeion, eich asiantiaid neu'ch isgontractwyr mewn sefyllfa lle bo gwir wrthdaro neu un posibl rhwng eich buddiannau neu rai eich cyflogeion, eich asiantiaid neu'ch isgontractwyr a'ch rhwymedigaethau dan y Contract. Rhaid ichi ddatgelu i ni fanylion unrhyw wrthdaro a gyfyd.

## **9 Eich statws**

- (a) Contractwr annibynnol ydych ac ni fwriedir dim yn y cytundeb hwn i wneud y canlynol (ac ni ddylid barnu bod dim byd yma yn ei wneud): sefydlu unrhyw bartneriaeth neu gydfenter rhyngom neu wneud yr un

ohonom yn asiant i'r llall neu awdurdodi'r un ohonom i wneud unrhyw ymrwymedigaethau ar gyfer neu ar ran y llall.

- (b) Ni chewch rwymedigaethau ar ein rhan oni'ch awdurdodwn i'w wneud yn benodol mewn ysgriflen.

Cadarnha pob parti ei fod yn gweithredu ar ei ran ei hun ac nid er lles neb arall.

## **10 Indemniad**

- (a) Rhaid ichi ad-dalu inni am unrhyw ddifrod, costau neu rwymedigaeth a gawn oherwydd eich esgeulustod neu'ch methiant i gydymffurfio â'r Contract.
- (b) Bydd y swm y mae'n bosibl y bydd yn rhaid ichi ein talu dan is-gymal 9(a) yn cynnwys heb gyfyngiad ffioedd ymgynghorol, cyfreithiol a phroffesiynol eraill.

## **11 Yswiriant**

- (a) Yn ychwanegol at yr indemniad yr ydych yn rhoi inni uchod, bydd yn rhaid ichi fod â digon o yswiriant oddi wrth gwmni ag enw da. Golyga hyn gael polisi yswiriant digonol ar gyfer pob perygl a allai godi wrth ichi ddarparu'r gwasanaethau ac ar gyfer pob gofyniad statudol a chyfreithiol a allai fod yn berthnasol ichi.
- (b) Os gofynnwn am dystiolaeth, rhaid ichi ddarparu'r fath dystiolaeth sy'n profi y cynhelir yr yswiriant sy'n ofynnol dan is-gymal 11(a) ar eich cost eich hun.

## **12 Diffygdalu**

- (a) Os penderfynwch na ellwch gyflawni eich rhwymedigaethau dan y Contract, rhaid ichi ysgrifennu atom ar unwaith gan esbonio'r rhesymau.
- (b) Os torrwyd ar eich rhwymedigaethau'n sylweddol dan y Contract, gallem roi ichi hysbysiad methiant sy'n manylu ar y methiant ei hun a sut a phryd y disgwyliwn ichi wneud yn iawn am y methiant.
- (c) Nid effeithia unrhyw beth a wnawn dan y cymal hwn ar unrhyw hawl a allai fod gennym i derfynu'r Contract ar unwaith.

## **13 Terfyniad a diwedd y Contract**

- (a) Mae unrhyw un o'r amodau canlynol yn doriad sylfaenol a fydd yn ein galluogi ar unwaith ac yn awtomatig i derfynu'r Contract hwn:
  - i. methu â chydymffurfio â hysbysiad methiant dan is-gymal 12(b);

- ii. y camymddygwch yn ddifrifol sy'n effeithio ar fusnes Cyngor Celfyddydau Cymru;
- iii. y gwnewch unrhyw doriad difrifol neu'n ailadrodd toriad neu beidio â chadw at unrhyw un o ddarpariaethau'r cytundeb hwn neu esgeuluso cydymffurfedd ag unrhyw gyfarwyddyd rhesymol a chyfreithiol oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru;
- iv. fe'ch euogfwnir o unrhyw drosedd (heblaw am droseddu yn erbyn unrhyw ddeddfwriaeth traffig y ffyrdd yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall lle y rhoddir ichi ddirwy neu gosb nad yw'n garchar);
- v. yr ydych, ym marn resymol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn esgeulus neu'n ddi-glem wrth berfformio'r gwasanaethau;
- vi. y datgenir eich bod yn fethdalwr neu y gwnewch unrhyw drefniant gyda'ch credydwr neu er eu budd neu y gwneir gorchymyn gweinyddu gan y llys sirol yn eich erbyn dan Ddeddf y Llys Sirol, 1984;
- vii. ni ellwch (gan gynnwys oherwydd salwch neu ddamwain) ddarparu'r gwasanaethau am gyfnod cyfansymiol o [NIFER] o ddyddiau mewn unrhyw gyfnod olynol o [52 wythnos];
- viii. y twyllwch neu ymddygwch yn anonest neu ymddygwch mewn ffordd (ym marn Cyngor Celfyddydau Cymru) sy'n debygol o ddwyn anfri (neu sy'n dwyn anfri) ar enw da Cyngor Celfyddydau Cymru neu sy'n mynd yn groes i fuddiant Cyngor Celfyddydau Cymru a hynny'n sylweddol;
- ix. torri unrhyw bolisiau a gweithdrefnau perthnasol sy'n eiddo i Gyngor Celfyddydau Cymru; neu
- x. droseddu dan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010.

xi. ichi aseinio unrhyw un o'ch rhwymedigaethau dan y Contract heb ein cydsyniad ysgrifenedig ymlaen llaw;

xii. y gwerthwch neu trosglwyddwch eich busnes i unrhyw sefydliad arall neu sefydliadau eraill oni roddwch wybod inni'n gyntaf; neu

xiii. ichi beidio â masnachu am unrhyw reswm.

(b) Wrth derfynu dan is-gymal 13(a), galleu gael gweddill y gwasanaethau oddi wrth drydydd parti. Bydd yn rhaid ichi dalu inni y gwahaniaeth:

i. y swm yr ydym yn talu i'r trydydd parti i ddarparu gweddill y gwasanaethau;  
a

ii. swm y byddwn wedi talu ichi am weddill y gwasanaethau dan y Contract, pe bai ef wedi parhau mewn grym,

ynghyd ag unrhyw gostau eraill y byddai'n rhaid inni eu talu o ganlyniad uniongyrchol i derfynu'r contract.

(c) Byddwn yn ymdrechu'n rhesymol i sicrhau bod y tâl yr ydym yn rhoi i drydydd parti dan is-gymal 13(b) yn fasnachol dderbyniol a lle bo'n bosibl ni fydd yn



uwch na lefel y ffi y byddwn wedi ei thalu ichi dan y contract.

- (d) Yn ôl adran 6 o ran A, bydd y naill neu'r llall ohonom yn gallu terfynu'r contract wrth roi hysbysiad ysgrifenedig i'r llall gan roi'r cyfnod rhybudd a nodir.
- (e) Rydym yn cadw'r hawl i estyn y contract hwn gyda'ch cytundeb ymlaen llaw ac ysgrifenedig.
- (f) Wrth derfynu'r contract neu ar ei ddiwedd, byddwch yn rhoi inni'n brydlon (neu i rywun arall yn ôl ein cyfarwyddyd) bob gwybodaeth ac eiddo, llofnodi neu wneud unrhyw gytundeb, cydweithredu'n gyffredinol a rhoi pob cymorth rhesymol inni er mwyn sicrhau trosglwyddo'r prosiect yn drefnus.
- (g) Ni fydd terfynu'r contract fel y nodir yn y cymal hwn yn effeithio ar unrhyw hawl gweithredu neu liniaru'r naill barti neu'r llall.

#### **14 Digwyddiadau direolaeth**

- (a) Mae'r rhain yn cael eu diffinio'n ddigwyddiadau naturiol anarferol (megis llifogydd neu ddaeargrynfeydd) nad oes modd eu rhagweld neu eu hatal yn rhesymol: tân, ffrwydrad, anghydfod diwydiannol, salwch, niwed difrifol neu unrhyw ddigwyddiad anarferol arall y tu hwnt i reolaeth y parti hwnnw. Ni fydd yr un o'r partiön yn gyfrifol am fethu â chyflawni eu rhwymedigaethau oherwydd digwyddiad direolaeth.
- (b) Os metha'r un o'r partiön â chyflawni eu rhwymedigaethau o ganlyniad uniongyrchol i ddigwyddiad direolaeth, rhaid i'r parti roi gwybod i'r llall ar unwaith gyda'i resymau. Ar yr adeg honno bydd y contract yn cael ei atal dros dro.
- (c) Bydd atal y Contract dros dro yn parhau ond dim ond tra bo'r parti yn methu â chyflawni ei rwymedigaethau oherwydd y digwyddiad direolaeth. Cyn gynted bod y digwyddiad ar ben, bydd yn rhaid i'r parti sy'n cael ei effeithio arno roi rhybudd ysgrifenedig i'r llall o'r ffaith.
- (d) Os yw'r cyfnod o fethu â darparu'n parhau am hwy na mis, byddai'r naill neu'r llall o'r ddau barti'n gallu terfynu'r contract ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i'r parti arall.

#### **15 Camwahaniaethu**

- (a) Rhaid ichi gydymffurfio â phob deddfwriaeth yn erbyn gwahaniaethu sydd mewn grym o bryd i'w gilydd gan gynnwys y canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:
  - i. Deddf Cysylltiadau Cyflogaeth 2004;
  - ii. Deddf Cydraddoldeb 2006; a
  - iii. Deddf Cydraddoldeb 2010.

- (b) Rhaid ichi beidio â thrin un grŵp o bobl yn llai ffafriol nag un arall oherwydd oed, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas, a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol gan gynnwys o ran penderfynu am recriwtio, hyfforddi neu ddyrchafu staff.
- (c) Rhaid ichi gydymffurfio, cyn belled ag y bo'n bosibl, â phob cod ymarfer statudol a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu unrhyw un o'r cyrff a'i rhagflaenodd megis Comisiwn Cydraddoldeb Hil. Rhaid ichi ddarparu'r wybodaeth a geisiwn i gael gwybod a gydymffurfiwch â'r codau ymarfer hyn.
- (d) Wrth weithio yn ein gweithleoedd, rhaid ichi gydymffurfio â'n polisiau cyflogaeth a'n codau ymarfer o ran amrywiaeth a chyfle cyfartal ym maes cyflogaeth.
- (e) Rhaid ichi fonitro cynrychiolaeth ymhlith eich staff o bobl o wahanol grwpiau. Os yw'n ymddangos bod grŵp sy'n cael ei dangynrychioli neu heb gael ei gynrychioli o gwbl ymhlith eich staff mewn math arbennig o swydd, bydd yn rhaid ichi, lle bo'n briodol a rhesymol, wneud y canlynol:
  - i. gosod a defnyddio hysbysebion i gyrraedd aelodau grwpiau penodol i annog eu ceisiadau;
  - ii. defnyddio asiantaethau cyflogaeth a swyddfeydd gyrfaoedd yn yr ardaloedd lle mae'r fath grwpiau'n byw a gweithio;
  - iii. defnyddio cynlluniau recriwtio a hyfforddi i bobl sy'n ymadael â'r ysgol neu rai di-waith sy'n targedu'r fath grwpiau; a/neu
  - iv. hyfforddi ac annog eich staff o'r fath grwpiau i gynnig am ddyrchafiad neu drosglwyddiad i wneud y math o swydd y mae tangynrychiolaeth ynddo.
- (f) Bydd yn rhaid ichi sicrhau y byddwch yn cynnal yn effeithiol bolisiau chwythu'r chwiban fel y bydd eich staff yn gallu codi pryderon yn gyfrinachol am gamymarfer posibl heb ofn erledigaeth, gwahaniaethu neu fod dan anfantais.

## **16 Amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed**

- (a) Bydd y cymal hwn dim ond yn weithredol os byddwch chi, eich partneriaid busnes neu'ch staff, wrth ddarparu'r gwasanaethau, yn arolygu person agored i niwed, gofalu amdano neu gael cyswllt uniongyrchol, sylweddol ag ef.
- (b) Yn y cymal hwn, ystyr Person Agored i Niwed yw:
  - i. unrhyw un dan 18 oed; a
  - ii. phobl y mae arnynt angen o bosibl wasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol, anabledd arall, oedran neu salwch ac sy'n methu o bosibl â gofalu amdanynt eu hunain neu'n methu ag amddiffyn eu

hunain rhag niwed neu gamfanteisio sylweddol.

- (c) Rhaid ichi ystyried yr holl beryglon cysylltiedig â darparu'r gwasanaethau, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch pob Person Agored i niwed a cheisio cydsyniad ysgrifenedig gofalwr neu warcheidwad cyfreithlon y Person cyn cael unrhyw gyswllt uniongyrchol, sylweddol ag ef.
- (d) Heb gyfyngu ar is-gymal 165(c), rhaid ichi fabwysiadu a gweithredu polisi a gweithdrefnau ysgrifenedig i amddiffyn pobl agored i niwed os:
  - i. ydych yn gwmni neu bartneriaeth neu'n unigolyn sy'n cyflogi pobl eraill; a
  - ii. wrth ddarparu'r gwasanaethau, byddwch chi, eich staff neu'ch contractwyr yn arolygu pobl agored i niwed, gofalu amdanynt neu gael cyswllt uniongyrchol, sylweddol â hwy.
- (e) Rhan o'r gweithdrefnau a nodir yn is-gymal 16(d) yw'r rheidrwydd ichi wirio cefndir a datgeliadau o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd o ran eich staff, eich contractwyr a'ch gwirfoddolwyr arfaethedig a fydd, wrth ddarparu gwasanaethau, yn arolygu pobl agored i niwed, gofalu amdanynt neu'n cael cyswllt uniongyrchol, sylweddol â hwy.

Os chi yw'r un a gaiff gyswllt uniongyrchol, sylweddol â pherson agored i niwed, rhaid ichi, cyn cael y cyswllt, gydsynio i'w ofalwr neu ei warcheidwad cyfreithlon wirio eich cefndir a gweld datgeliad o'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd petai'n dymuno ei wneud.
- (f) Bydd yn rhaid ichi gydymffurfio ag is-gymal 16(e) hyd yn oed os nad oes raid ichi ei wneud dan ddeddfwriaeth amddiffyn plant neu safonau mewn gofal a hyd yn oed os yw'r gwaith yn ffurfiol, anffurfiol, gwirfoddol neu am gyflog.
- (g) Ni all y Cyngor eich cyngori am eich rhwymedigaethau cyfreithiol o ran ymdrin â Phobl Agored i Niwed ac ni ddylid ystyried y cymal hwn yn gyngor o'r fath. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich rhwymedigaethau, byddwn yn eich cyngori'n gryf ichi gael cyngor cyfreithiol, annibynnol a chysylltu â'r Gymdeithas er Atal Creulondeb i Blant ([www.nspcc.org.uk](http://www.nspcc.org.uk)).

## 17 Iechyd a diogelwch

Rhaid ichi gydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974, Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 a phob rheoliad a chod ymarfer cymeradwy arall sy'n berthnasol i'r gwasanaethau.

## 18 Atal anonestrwydd

Byddwn yn gallu terfynu'r contract ar unwaith os ydych chi, eich staff neu'ch asiantiaid wedi cynnig neu roi unrhyw arian neu anrhegion i unrhyw un er mwyn

cael y contract hwn neu wedi cytuno ei wneud.

## **19 Hysbysiadau**

- (a) Bydd y naill barti neu'r llall anfon hysbysiadau, llythyrau a dogfennau eraill yn rhagdaledig yn ddosbarth cyntaf wedi'i recordio neu ffacs at y parti arall yn y cyfeiriad a nodir yn y manylion neu mewn unrhyw gyfeiriad neu rif ffacs arall sy'n cael ei roi.
- (b) I brofi bod hysbysiad neu ddogfen wedi cyrraedd pen y daith, digon yw profi cyrraedd pen y daith, bod yr amlen wedi'i chyfeirio'n gywir a'i phostio yn y modd a nodir uchod neu fod neges ffacs wedi'i chyfeirio'n gywir a'i hanfon.

## **20 Anghydfod**

- (a) Bydd y partiön yn ymdrechu i ddatrys unrhyw anghydfod y byddai'n gallu codi rhyngddynt dan y contract.
- (b) Os nad yw anghydfod yn cael ei ddatrys yn foddhaol ar gyfer y ddau barti mewn 10 diwrnod gwaith, bydd y partiön yn ceisio ei ddatrys drwy gyfryngu.
- (c) I ddechrau cyfryngu, rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r parti arall gan ofyn am gyfryngu.
- (d) Os nad yw'r anghydfod yn cael ei ddatrys mewn 90 diwrnod o ddechrau cyfryngu, neu os yw un o'r partiön yn gwrthod cymryd rhan, bydd y naill barti neu'r llall yn gallu mynd i'r llys.

## **21 Deddf Contractau (Hawliau Trydydd Partiön) 1999**

Fel y nodir yn y Ddeddf uchod, heblaw y dywedir yn blaen fel arall, ni fydd gan unrhyw drydydd parti hawl gorfodi dan y contract.

## **22 Newid ac aseiniö**

Ni fydd unrhyw newid neu aseiniad i'r Contract hwn yn effeithiol heblaw bod y ddau barti wedi cytuno arno ymlaen llaw ac yn ysgrifenedig.

## **23 Ildio hawl**

Nid ildio yw ystyr methiant yr un o'r partiön i arfer unrhyw hawl neu weithredu unrhyw liniariad. Bydd ildio hawl ond yn effeithiol pes darperir yn ysgrifenedig i'r parti arall.

## **24 Toriad**

Os yw unrhyw ddarn o'r Contract yn aneffeithiol neu'n anorfodadwy dan y gyfraith nid effeithia ar weddill y Contract.

## **25 Y cytundeb cyfan**

Yn y Contract mae'r cytundeb cyfan rhwng y partiïon am y gwasanaethau a chymer le pob cytundeb blaenorol rhwng y partiïon am y gwasanaethau. Ond ni weithreda'r ddarpariaeth hon i gyfyngu neu eithrio unrhyw rwymedigaeth am dwyll neu gamgynrychioli twyllodrus.

## **26 Y gyfraith**

Rheolir y Contract gan gyfreithiau Cymru a Lloegr ac yn ddarostyngedig i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr.

## **27 Costau**

Tâl pob parti ei gostau ei hun ar gyfer paratoi neu wneud y contract hwn.